Fe wnaethom waith maes manwl yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Abertawe, Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a Heddlu Dyfed Powys. Roedd hyn yn golygu cyfweild â swyddogion ac aelodau etholedig, partneriaid a grwpiau ffocws gyda gweithwyr rheng-flaen y trydydd sector. Fe gyfwelom ni â chynrychiolwyr o Cymorth i Ferched Cymru, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yr Ymgynghorwyr Cenedlaethol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (presennol a blaenorol) a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol a phrif weithredwyr sefydliadau'r trydydd sector. Fe wnaethom helaethu ein golygwedd a'n dealltwriaeth trwy gyfweild ag aelodau etholedig a swyddogion yng Nghyngor Dinas Newcastle.

## Cyfweliadau gyda goroeswyr

Fe gyfwelom ni â nifer o oroeswyr a roddodd wybodaeth fanwl i ni am eu profiadau o'r modd y mae cyrrff cyhoeddus wedi ymateb i'w hanghenion.

## Arolygon

Fe wnaethom arolygu awdurdodau lleol, byrddau iechyd, awdurdodau tân ac achub, yr heddlu a chomisiynwyr heddlu a throseddu o ran eu dull strategol o ddarparu gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac effeithiolrwydd trefniadau gweithredol presennol. Fe wnaethom hefyd arolygu pob un o'r prif ddarparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru a darparwyr gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol arbenigol yn y trydydd sector.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in  
Welsh and English.

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau  
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)



# Eitem 5

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

6 Chwefror 2020 – tudalen flaen papurau i'w nodi

Rhif y papur:	Mater o dan sylw	Oddi wrth	Cam gweithredu
ELGC(5)-05-20 Papur 3	Ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015	Llywodraeth Cymru	I'w nodi
ELGC(5)-05-20 Papur 4	Ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015	NSPCC Cymru	I'w nodi
ELGC(5)-05-20 Papur 5	Ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015	Bwrdd Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent	I'w nodi
ELGC(5)-05-20 Papur 6	Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)	Llywodraeth Cymru	I'w nodi



Ein cyf / Our ref: MA-P-JH-5811-19

John Griffiths AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

24 Ionawr 2020

Annwyl John,

Yn eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr 2018, gofynnoch am ddiweddariad bob tri mis gan y Cynghorwyr Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn cael ei roi ar waith yn amserol.

Rwy'n falch o amgáu'r pedwerydd adroddiad gan y Cynghorwyr Cenedlaethol sy'n edrych ar y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2019.

Yn gywir,

**Jane Hutt AC/AM**

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip  
Deputy Minister and Chief Whip

# **Adroddiad y Cynghorwyr Cenedlaethol i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, diweddariad Rhagfyr 2019**

## **1. Diben**

Yn ei lythyr, dyddiedig 18 Rhagfyr 2018, at y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, gofynnodd John Griffiths AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (y Pwyllgor) i'r Cynghorwyr Cenedlaethol gyflwyno'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor yn rheolaidd er mwyn rhoi sicrwydd i'r aelodau ynghylch hynt y gwaith o weithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Dyma'r pedwerydd diweddariad gan y Cynghorwyr Cenedlaethol ac mae'n ymwneud â'r cyfnod o ddechrau mis Hydref hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2019.

Mae'r isbenawdau isod, "Cynghorwyr Cenedlaethol" a "Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru," yn dynodi cyfrifoldeb dros gamau gweithredu a ddisgrifir yn yr adrannau perthnasol.

## **2. Rhagair**

### Cynghorwyr Cenedlaethol:

Yn ystod y chwarter hwn, cytunwyd yn derfynol ar ddull gweithredu, aelodaeth a ffrydiau gwaith y Grŵp Rhanddeiliad Arbenigol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) a gyfarfu am y tro cyntaf ym mis Medi 2019. Rydym wedi dethol pedair thema benodol ar gyfer y grŵp. Mae'r rhain yn cynnwys nodi gwelliannau o ran cydweithio rhanbarthol ar VAWDASV ymhlith asiantaethau cyflenwi; adolygu anghenion plant a phobl ifanc sy'n dioddef cam-drin domestig a gwneud argymhellion ar gyfer gwell darpariaeth; adolygu anghenion ceiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n dioddef cam-drin domestig a niwed diwylliannol; ac edrych ar y rhyngwyneb rhwng prosesau datganoledig a rhai nad ydynt wedi'u datganoli a gwneud argymhellion ar gyfer eu halinio'n well â'i gilydd.

Cynhaliwyd cyfarfod rhyngom a'r Ysgrifennydd Parhaol ym mis Rhagfyr. Y prif faterion dan sylw oedd hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o VAWDASV o fewn Llywodraeth Cymru, yn enwedig ymhlith timau arwain uwch. Bydd cam gweithredu a ddeilliodd o'r cyfarfod hwn yn esgor ar flog penodol gan yr Ysgrifennydd Parhaol. Rydym wedi bod yn falch o weld cymaint o weithio trawslywodraethol yn Llywodraeth Cymru a chymeradwywyd yr Ysgrifennydd Parhaol gennym ar y gefnogaeth a'r anogaeth a roddwyd gan lefelau uwch y sefydliad.

## **3. Dangosyddion Cenedlaethol**

### Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

Mae'r Gweithgor Cenedlaethol ar Ddangosyddion yn parhau i adolygu'r dangosyddion cenedlaethol ar gyfer VAWDASV a gyhoeddwyd, mesurau arfaethedig

a ffynonellau data â'r bwriad o gytuno ar unrhyw ddiwygiadau erbyn haf 2020. Mae tri gweithdy'n weddill a amserlennwyd rhwng Ionawr a Mawrth, ac ar ôl i'r rhain gael eu cynnal bydd swyddogion yn gwneud argymhellion ynghylch diweddarau'r Dangosyddion Cenedlaethol, y mesurau a'r ffynonellau data.

#### Cynghorwyr Cenedlaethol:

Rydym wedi cadeirio rhai o'r gweithdai ar y Dangosyddion Cenedlaethol. Roedd cyfraniadau'r darparwyr a'r partneriaid yn galonddid inni.

### **4. Strategaethau Lleol**

#### Cynghorwyr Cenedlaethol:

Mae'n bleser gennym ddweud ein bod wedi cael yr holl strategaethau lleol y gofynnwyd amdanynt. Rydym yn dechrau sgrinio'r rhain i sicrhau ein bod yn gallu darparu adborth a, lle bo modd, yn gallu nodi enghreifftiau o arfer da y gallwn eu rhannu. Yn ddiweddar, tynnwyd ein sylw at feysydd penodol yn cynnwys plant a phobl ifanc a grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) sydd angen camau gweithredu penodol. Byddwn yn ystyried unrhyw feysydd i'w gwella yn ofalus, lle bo'n berthnasol.

### **5. Canllawiau Statudol**

#### Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

##### *Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol*

Erbyn mis Medi 2019, roedd 167,500 o bobl yng Nghymru wedi cael hyfforddiant drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gwasanaethau i barhau i gynyddu'r ganran o'u gweithlu sy'n cwblhau modiwl e-ddysgu Grŵp 1 (hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol). Mae swyddogion hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr i alluogi 25,000 o weithwyr y sector cyhoeddus mewn lleoliadau addysgol i gael mynediad at fodiwl e-ddysgu VAWDASV drwy borthol Hwb.

Mae gweithwyr proffesiynol yn y sector cyhoeddus yn parhau i gael eu hyfforddi drwy ein hyfforddiant ar ymyrryd yn gynnar ac atal, sef Gofyn a Gweithredu (grwpiau 2 a 3), ac un o elfennau pwysicaf yr hyfforddiant yw adnabod VAWDASV ac ymateb iddo. Ddechrau mis Hydref 2019, hyfforddwyd 4,343 o weithwyr yn y sector cyhoeddus. Mae hyfforddiant Gofyn a Gweithredu ar gael nawr ar draws Gwent, Cwm Taf, Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Gwasanaethau Tân ac Achub, ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ogystal â Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd. Bydd Gofyn a Gweithredu'n cael ei roi ar waith yn llawn yn ystod 2020-21. Mae cyfarfodydd gweithredu wedi dechrau o fewn Pen-y-bont ar Ogwr a Bae'r Gorllewin - Abertawe yn ogystal â Chaerdydd a'r Fro.

Mae cwrs arbenigol a chwrs rheolwr gwasanaeth, a ariennir yn llwyr gan Lywodraeth Cymru, yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd i grwpiau 4 a 5 (sef rhai sy'n arbenigo ym maes VAWDASV) o'r fframwaith a bydd yn dirwyn i ben ym mis Mawrth 2020. Mae gweithdai rhanbarthol ar gyfer arweinwyr grŵp 6 (yn cynnwys gweithwyr â chyfrifoldeb dros gomisiynu a chynllunio) yn cael eu cynnal hefyd. Mae rhagor o gyfarfodydd wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn newydd.

Mewn partneriaeth â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn trefnu bod hyfforddiant Gofyn a Gweithredu ar gael i holl Aelodau'r Cynulliad a'u staff cynorthwyol. Mae cyfarfod cynllunio ar yr amserlen ar gyfer Ionawr 2020. Bydd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol iddynt wrth eu gwaith yn eu hetholaethau. Mae'n golygu y gall Aelodau Cynulliad ymgysylltu rhag blaen â rhai sy'n agored i niwed ac yn dioddef trais a chamdriniaeth, a'u cyfeirio at wasanaethau cymorth perthnasol.

Mae ymroddiad yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol i wneud canllawiau Gofyn a Gweithredu'n statudol. Felly mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i werthuso rhaglen Gofyn a Gweithredu yn annibynnol yn gynnar yn 2020 cyn gwneud canllawiau Gofyn a Gweithredu yn statudol.

## **6. Iechyd**

### Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

Ym mis Rhagfyr, gwahoddiwyd swyddogion i gyflwyniad gyda chydweithwyr o lechyd y Cyhoedd, Cymru ynghylch y prif themâu a welir dro ar ôl tro mewn adolygiadau o ddynladdiadau trais domestig. Y nod oedd sicrhau bod yna hyfforddiant ar gyfer yr holl rolau craidd yn unol â'r themâu allweddol hyn.

### Cynghorwyr Cenedlaethol:

Rydym wedi bod yn gweithio gyda swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu dros Heddlu De Cymru i edrych ar y teithi meddwl presennol a'u herio, gan ffafrio fframwaith dull gweithredu penodol sy'n gymwys o ran iechyd y cyhoedd mewn ymateb i VAWDASV. Teimlwn y bydd y maes hwn, a'r gweithdy y gwnaethom gymryd rhan ynddo'r chwarter hwn, yn helpu i alinio'n gwaith yn well â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bwriad y cydweithio hwn yw nodi dulliau gweithredu sy'n gymwys o ran iechyd y cyhoedd a deall sefyllfa bresennol VAWDASV ledled Cymru.

## **7. Addysg**

### Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

Mae'r gwaith o ddatblygu cwricwlwm newydd ar gyfer addysg statudol (3 hyd 16 oed) yn parhau, fel y disgrifiwyd yn y diweddariad diwethaf.

Mae swyddogion yn gweithio gyda CBAC i lunio ac i redeg her beilot lechyd a Llesiant ynghylch Mentora Cyfoedion ar gyfer Cwrs Uwch Bagloriaeth Cymru, a fydd hefyd yn hybu rhaglen Eiriolwyr Ifanc ymgyrch y Rhuban Gwyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gweithdai, yn cychwyn ym mis Rhagfyr 2019, i'w cyflwyno ledled Cymru i roi gwell dealltwriaeth i weithwyr proffesiynol rheng-flaen fel cwrselwyr ysgol a gweithwyr ieuencid, ynghyd â rhagor o wybodaeth ac offer ymarferol i'w defnyddio wrth gefnogi pobl ifanc.

Gweithiodd swyddogion gyda CCAUC i ddatblygu canllawiau ar gyfer sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru a ariennir yn uniongyrchol ynghylch mynd i'r afael â VAWDASV. Cyhoeddwyd y canllawiau drafft at ddibenion cynnal ymgynghoriad ym mis Hydref, ac mae hwnnw wedi dod i ben erbyn hyn. Ar hyn o bryd, mae CCAUC yn edrych ar yr adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad a bydd yn cwrdd â swyddogion ym mis Ionawr 2020 i drafod y drafft terfynol. Bwriedir cyhoeddi'r canllawiau erbyn diwedd mis Mawrth 2020.

#### Cynghorwyr Cenedlaethol:

Rydym yn parhau i chwarae rhan yn y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm newydd, gyda Llywodraeth Cymru a chyda grwpiau cymunedol allweddol. Yn benodol rydym yn hybu dealltwriaeth o densiynau a phryderon grwpiau amrywiol. Mae un o'r Cynghorwyr Cenedlaethol yn ymwneud â gwaith cyfryngu ar gyfer y sector addysg yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Rydym yn darparu cyngor arbenigol i'r sector yng Nghymru i roi'r hyblygrwydd i weithwyr proffesiynol i nodi tensiynau a dulliau gweithredu posibl er mwyn ymgysylltu ag amrywiaeth ehangach o grwpiau cymunedol, gan gynnwys menywod o gefndiroedd amrywiol.

## **8. Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM), Cam-drin ar Sail Anrhydedd a Phriodas dan Orfod**

#### Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

Cyfarfu Grŵp Cam-drin ar Sail Anrhydedd Cymru-gyfan ar 9 Rhagfyr 2019. Cymeradwywyd y gwelliannau a gynigiwyd i'r cylch gorchwyl yn y cyfarfod diwethaf. Cafwyd trafodaeth fanwl am ddiben a swyddogaeth y grŵp a chytunwyd y dylai fod â chyfrifoldeb strategol dros weithgarwch ar lefelau rhanbarthol a lleol. Diweddarwyd y cynllun cyflawni presennol o ganlyniad i hyn. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 5 Mawrth 2020.

#### Cynghorwyr Cenedlaethol:

Aethom i gyfarfod y Grŵp Cam-drin ar Sail Anrhydedd Cymru-gyfan ar 9 Rhagfyr 2019 i rannu ein harbenigedd ynghylch sut orau i fynd ati i ddatblygu arferion a llwybrau sy'n berthnasol i Awdurdodau yng Nghymru. Mae ein canfyddiadau yn tynnu sylw at yr

angen i wella gwaith amlasiantaethol o ran nodi peryglon lluosog. Yn y cyfarfod, cyflwynwyd gwybodaeth am daith y dioddefwr gennym, yn benodol felly am ddatgeliadau, sut y maent yn cael eu dosbarthu a sut y mae risgiau'n cael eu rheoli.

## 9. Model Cyllid Cynaliadwy

Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

Mae'r maes hwn yn profi'n heriol. Fodd bynnag mae Cadeirydd y Grŵp Cyllid Cynaliadwy wedi gofyn i aelodau'r grŵp ddod at ei gilydd a chyflwyno eu cynigion ar gyfer model cyllid cynaliadwy i'w drafod gan y grŵp a'i fabwysiadu.

Daeth tri Aelod o'r Grŵp Cyllid Cynaliadwy at ei gilydd i lunio papur yn amlinellu eu cynigion ar gyfer eu trafod. Trafodir y papur hwn yn y cyfarfod ym mis Ionawr 2020.

Cynghorwyr Cenedlaethol:

Rhodddwyd cyfle i fyrddau rhanbarthol a phartneriaethau i gyflwyno eu profiadau o gomisiynu ar y cyd yn effeithiol yng nghyfarfodydd y Grŵp Cyllid Cynaliadwy yn y dyfodol. Bydd y gwahoddiad hwn yn annog yr arfer o ddysgu o wahanol ddulliau gweithredu yn ogystal â hwyluso'r broses o roi adborth agored ac o herio pob dull.

## 10. Dyraniadau Cyllid

Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

*Cyllid Refeniw*

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid refeniw i Bartneriaethau Rhanbarthol ac i sefydliadau trydydd sector yn flynyddol.

Mae swyddogion yn parhau i fonitro i ba raddau y cyflawnir yn erbyn cynlluniau cyflawni rhanddeiliaid drwy ddefnyddio cylchoedd hawlio chwarterol sy'n cynnwys monitro cyfarfodydd.

*Cyllid Cyfalaf*

Cyflwynwyd 16 o gynigion am gyfanswm o £1,431,605 ar gyfer grant cyfalaf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2019-2020. Nid oedd dau o'r cynigion yn ymarferol. Dyrannwyd cyllid o £1,063,854 i'r 14 cynnig arall.

*Cyllideb ar gyfer 2020-21*

Cyllideb refeniw ddangosol VAWDASV ar gyfer 2020-2021 yw £5.25 million, sydd yn cynnwys cyllid ychwanegol achlysurol o £250,000.

Dyrennir y cyllid refeniw achlysurol i wahanol feysydd â blaenoriaeth, fel:

- Hyfforddiant ychwanegol yn ymwneud ag arferion diwylliannol niweidiol, gan gynnwys hyfforddiant BME ar gyfer Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig

a / neu hyfforddiant i staff llochesi yng Nghymru i gefnogi teuluoedd â phroblemau cam-drin sylweddau ac iechyd meddwl;

- Lleihau rhestrau aros am gwnsela yn sgil trais rhywiol;
- Cynyddu'r cyllid a roddir i'r rhanbarthau i gyflenwi gwasanaethau i gyflawnwyr trais;
- Gwerthuso Gofyn a Gweithredu;
- Codi ymwybyddiaeth o fewn gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

Cyllideb cyfalaf ddangosol VAWDASVar gyfer 2020-2021 yw £2.169 miliwn, sy'n cynnwys cyllid achlysurol ychwanegol o £1,200,000.

Bydd y cyllid cyfalaf achlysurol yn cael ei ddyrannu i lochesi VAWDASV / Llety Camu Ymlaen.

Bydd y cyllid hwn yn cefnogi darparwyr yn y trydydd sector i brynu unedau gwasgaredig mewn cymunedau sy'n cynnig digon o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion teuluoedd nad oes modd eu diwallu mewn llochesi (gan gynnwys bod yn hygyrch i'r anabl neu deuluoedd ag aelodau dibynnol hŷn), neu i'w gwneud yn bosibl camu ymlaen o lochesi. Mae menywod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan gam-drin domestig na dynion, ac maent yn fwy tebygol o ddianc o'u cartrefi. Gan mai menywod yn bennaf yw'r gofawyr yn ein cymdeithas, maen nhw'n fwy tebygol o ddianc gyda phlant. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd angen y math hwn o lety ar ddynion sy'n dianc o gamdriniaeth hefyd, yn enwedig gan eu bod yn llai tebygol o geisio lle mewn lloches ac o dderbyn lle pan gaiff ei gynnig ac mae'n bosibl eu bod yn teimlo'n fwy diogel mewn unedau ar wasgar.

## **11. Gweithio gyda'r rhai sy'n cyflawni trais**

### Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

Ym mis Tachwedd, cyhoeddwyd y Canllawiau ar Arfer Da wrth weithio ag oedolion sydd wedi cyflawni trais ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus anarbenigol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cyfanswm o £120,000 ar gael fel grantiau i'r saith rhanbarth i'w helpu i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer cyflawnwyr trais yn eu hardaloedd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig cymorth pellach ac arbenigedd i helpu i weithredu'r prosiectau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cefnogaeth a goruchwyliaeth i nifer o brosiectau gradd feistr mewn Seicoleg Fforensig ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Yn y prosiectau hyn mae myfyrwyr gradd feistr yn gwerthuso gwasanaethau cyflawnwyr trais fel rhan o'r rhaglen academaidd. Mae dau o'r prosiectau bron wedi'u cwblhau, mae un yn dal yn mynd rhagddo a thri arall ar fin cychwyn.

Cynhaliwyd digwyddiadau ar gyfer rhannu arferion yng Nghaerdydd a Chyffordd Llandudno ym mis Tachwedd. Daeth cynulleidfaoedd da i'r digwyddiadau a chafwyd cyflwyniadau gan Barnardos, prosiect ar amgylchedd "sensitif i drama" mewn carchardai ac ymchwilydd ym maes aflonyddu rhywiol.



Cyfarfu gweithwyr llif gwaith VAWDASV ynghylch y 'fframwaith i gefnogi newid cadarnhaol i'r rhai mewn perygl o droseddu yng Nghymru' ym mis Tachwedd. Mae tri grŵp gorchwyl a gorffen sy'n adrodd i weithwyr y llif gwaith ar y gweill. Maent yn canolbwyntio ar gomisiynu gwasanaethau i'r rhai sy'n cyflawni trais, safonau ar gyfer gwasanaethau ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cefnogaeth a goruchwyliaeth barhaus i'r ymchwil i aflonyddu ym Mhrifysgol Abertawe. Ariannwyd yr ymchwil gan Lywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â KESS II (Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth), rhan o Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

## **12. Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr**

### Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

Mae'r paneli peilot y soniwyd amdanynt yn y diweddariad diwethaf wedi dod i ben erbyn hyn. Cynhaliwyd tri phanel â grŵp cymysg o oroeswyr yn ystod misoedd Medi, Hydref a Thachwedd. Cynorthwyodd y panel y goroeswyr i adolygu'r amcanion yn y Strategaeth Genedlaethol bresennol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a gweld beth sydd wedi newid, ac i rannu eu gwybodaeth a'r profiadau a gawsant i ddylanwadu ar ddatblygiad y Strategaeth Genedlaethol nesaf ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Mae model damcaniaeth newid wedi'i ddatblygu ac mae'r prosiect peilot yn cael ei werthuso ar hyn o bryd gan raglen ymchwil Llywodraeth Cymru. Bydd cyfarfodydd gwerthuso yn digwydd gydol mis Ionawr a mis Chwefror 2020 â'r rhai a fu'n ymwneud â'r prosiect. Bydd y rhain yn cael eu cyfuno â chanfyddiadau eraill y gwaith peilot er mwyn penderfynu ai dyma'r dull gweithredu gorau ac a yw llais a phrofiadau goroeswyr wedi gwneud gwahaniaeth. Bydd hyn yn llywio'r adroddiad terfynol, a fydd yn dylanwadu ar fframwaith cynaliadwy ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr. Rydym yn rhagweld y bydd y fframwaith yn cynnwys sawl ffordd o ymgysylltu â goroeswyr ledled Cymru. Rydym yn disgwyl cael yr adroddiad o'r canfyddiadau cyntaf erbyn diwedd mis Mawrth 2020, a dylai'r gwerthusiad llawn ddod i law yng ngwanwyn 2020.

### Cynghorwyr Cenedlaethol:

Mae ymgysylltu â goroeswyr yn parhau i fod yn elfen allweddol er mwyn llywio newid gwirioneddol a dylanwadu arno. Rydym yn bwriadu gweithio gyda goroeswyr cam-drin rhywiol hanesyddol ymhlith Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig fel rhan o'n Panel Dysgu newydd. Bydd y cyfarfod hwn yn ffordd o ymgysylltu'n ystyrlon â grwpiau amrywiol ac yn helpu i ddarparu camau gweithredu allweddol er mwyn i Lywodraeth Cymru a phartneriaid strategol fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau sydd efallai'n bodoli ar hyn o bryd.

## **13. Byw heb Ofn**

#### Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

Gan na chawsom unrhyw geisiadau i gynnal astudiaeth werthuso ar y llinell gymorth yn ystod ein proses gaffael ddiwethaf, byddwn yn cysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau perthnasol i ofyn iddynt dendro am y gwaith pwysig hwn a fydd yn llywio contractau i redeg llinell gymorth Byw Heb Ofn yn y dyfodol.

Ers yr adroddiad diwethaf, cysylltwyd â'r llinell gymorth 8,595 gwaith; 8,224 o alwadau ffôn i'r llinell, 46 o gysylltiadau ar e-bost, 311 o gysylltiadau drwy'r gwasanaeth gwe-sgwrs ac 14 o negeseuon testun. Diweddwyd yr alwad cyn siarad ag un o weithwyr cymorth y llinell gymorth yn achos 7.5% o'r galwadau.

Er mwyn dangos pa mor gynhyrchiol yw'r llinell gymorth, rhaid ystyried nifer y galwadau a wnaed gan staff y llinell gymorth hefyd. Gwnaed cyfanswm o 1,850 o alwadau, ac mae'r prif resymau dros y galwadau fel a ganlyn: negeseuon i grwpiau – problemau mewn lloches ac ati; ymholiadau ynghylch lleoedd mewn lloches neu i gyfeirio rhywun at loches; galwadau i'r heddlu; galwadau i asiantaethau; Canolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) /Gwasanaeth Cadw Cam wrth Gam; arall.

#### **14. Cyfathrebu**

##### Swyddogion VAWDASV Llywodraeth Cymru:

Ers yr adroddiad diwethaf rydym wedi lansio trydydd cyfnod ein hymgyrch 'Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn' yn llwyddiannus. Mae'r cyfnod hwn yn canolbwyntio ar brofiadau penodol pobl ifanc. Mae'n tynnu sylw at yr heriau y maen nhw'n eu hwynebu wrth iddynt feithrin perthnasoedd a sefydlu eu hunaniaeth fel unigolyn. Lansiwyd y cyfnod hwn ar ddau gam, y cyntaf i gyd-fynd ag Wythnos y Glas a phrofiadau cyffredin pobl ifanc 19 i 21 oed wrth iddynt gychwyn addysg bellach. Anfonwyd pecynnau llawn yr ymgyrch i brifysgolion yng Nghymru. Yn fwy diweddar, ym mis Hydref, buom yn gweithio gyda grŵp o bobl ifanc yng Nghwm Rhondda i dargedu pobl ieuengach, rhwng 16 a 19 oed. Cynhyrchwyd clip fideo byr gydag Adran Newyddion y BBC, yn rhannu profiadau pobl ifanc. Crëwyd animeiddiad byr hefyd ac fe'i dosbarthwyd i rwydweithiau VAWDASV ar gyfer rhieni a phobl gysylltiedig eraill, i'w hannog i sylwi ar arwyddion o reolaeth ac i gael gaffael ar wybodaeth a chymorth.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r Grŵp Cyfathrebu Rhanddeiliaid Arbenigol, rhanddeiliaid allweddol â'u harbenigedd ym maes trais rhywiol, yn ogystal â chyda goroeswyr, er mwyn datblygu negeseuon a delweddau ar gyfer y camau a fydd yn lansio ym mis Chwefror 2020. Bydd Cam 4 'Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn' yn parhau i edrych ar agweddau a welir ar reolaeth drwy orfodaeth – fel camfanteisio, camddywanwadu, paratoi rhywun ar gyfer perthynas amhriodol a chodi ofn - pan fo'n digwydd o fewn teuluoedd a chydberthnasoedd agos a hefyd mewn achosion o drais rhywiol.

Er mwyn i'n hymgyrchoedd cyfathrebu gyrraedd ymhellach, mae gweithgareddau cyfathrebu cymunedol yn cael eu cynnal mewn pedair rhan o Gymru i godi ymwybyddiaeth o VAWDASV. Mae gweithgareddau'r cyfnod hwn (mis Hydref hyd at fis Mawrth) yn canolbwyntio ar 'Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn'. Goroeswyr

camdriniaeth sy'n arwain y gweithgareddau mewn partneriaeth â rhanddeiliaid arbenigol. Mae digwyddiadau'r flwyddyn hon (mis Hydref hyd fis Rhagfyr) wedi cynnwys datblygu podlediad a chyflwyniadau â goroeswyr yn eu harwain, cynhadledd yn y De-orllewin, datblygu adnoddau ar gyfer gweithio gyda goroeswyr VAWDASV ag anghenion ychwanegol a digwyddiad cymunedol yn ymgysylltu ag eiriolwyr ifanc.

Yn dilyn Diwrnod y Rhuban Gwyn a digwyddiadau'n nodi'r 16 diwrnod o weithredu, mae 7 cennad Rhuban Gwyn newydd wedi'u recriwtio o fewn Llywodraeth Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi parhau i redeg ymgyrchoedd bach ar sianeli Byw Heb Ofn ar y cyfryngau cymdeithasol yn tynnu sylw at yr hyn rydym wedi'i gyflawni dros y flwyddyn a aeth heibio, a chan rannu gwybodaeth â'n rhwydwaith ehangach ynghylch pa gymorth sydd ar gael i ddiodefwyr, rhanbarthau, comisiynwyr a gweithwyr proffesiynol ar draws Cymru.

#### Cynghorwyr cenedlaethol:

Nodwyd Diwrnod Rhyngwladol diddymu trais yn erbyn menywod a Diwrnod y Rhuban Gwyn eleni gan ddigwyddiad a drefnwyd ar y cyd â Sefydliad y Merched Cymru. Siaradodd Nazir Afzal yn y digwyddiad yn y prynhawn yn y Senedd ac yn ddiweddarach cymerodd ran mewn gwylhos deimladwy dros ddiodefwyr trais o'r fath. Yn ôl yr arfer, dilynwyd hyn gan 16 diwrnod o weithredu ac roeddem yn falch i weld Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan ar y lefel uchaf gydol y cyfnod hwn. Mae angen i'r cyfnod ddod yn fwy amlwg yn y blynyddoedd i ddod.

Roedd Nazir Afzal wedi rhoi tystiolaeth lafar ar y Bil Cam-drin Domestig i bwyllgor y Bil yn ystod sesiwn seneddol Llywodraeth y DU cyn hyn. Hefyd, cysylltwyd â noddwyr y Bil i sicrhau bod y Bil yn adlewyrchu dymuniadau'r sector yng Nghymru, yn enwedig felly, y goroeswyr. Atgyfnerthwyd y cysylltiad â'r Comisiynydd Cam-drin Domestig dynodedig drwy ohebu a chysylltu rheolaidd sy'n parchu'r meysydd datganoledig yng Nghymru ond sydd hefyd yn chwilio am gyfleoedd i gydweithredu, yn arbennig o ran gwaith ymchwil.

## **15. Canlyniad**

#### Cynghorwyr Cenedlaethol:

Bydd y Cynghorwyr Cenedlaethol yn parhau i weithio â rhanddeiliaid allweddol, y sector cyhoeddus, Llywodraeth y DU, y trydydd sector a phartneriaid perthnasol eraill i sicrhau bod ymrwymiad cryf i gyflawni'r darpariaethau a nodwyd yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Mae Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021 yn ymrwmo i sefydlu Panel Dysgu i ystyried a lledaenu gwersi sy'n cael eu dysgu ac arfer da. Rydym wedi sefydlu'r grŵp hwn a bydd yn canolbwyntio ar themâu penodol. Bydd ein thema gyntaf yn edrych ar arferion niweidiol fel Cam-drin ar sail Anrhydedd a cham-drin rhywiol hanesyddol o fewn cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Er mwyn gwella cydweithrediad rhwng Cymru a Lloegr rydym wedi cyfarfod â Chomisiynydd Cam-drin Domestig y DU a benodwyd yn ddiweddar. Bydd rôl y

Comisiynydd Cam-drin Domestig yn arwain ar yrru'r gwaith o wella'r ymateb i gam-drin domestig yn y DU, yn pledio achos dioddefwyr ac yn gwneud argymhellion ynghylch beth arall y dylid ei wneud i amddiffyn dioddefwyr yn well ac i ddod â mwy o droseddwyr o flaen y llysoedd. Byddwn yn gweithio gyda'r Comisiynydd i sicrhau ein bod yn llwyddo i gydweithio'n drawsffiniol.

Cynghorwyr Cenedlaethol VAWDASV

Rhagfyr 2019

## The Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act – Barriers to implementation briefing

### Presented to Equalities, Local Government and Communities Committee

NSPCC is leading the fight against child abuse in the UK and Channel Islands. We help children who've been abused to rebuild their lives, we protect children at risk, and we find the best ways of preventing child abuse from ever happening. Learning about what works in the fight against abuse and neglect is central to what we do. We are committed to carrying out research and evaluation to make sure the approaches we're taking are the right ones and we share what we have learnt with partners. Abuse ruins childhood, but it can be prevented. That's why we're here. That's what drives all our work, and that's why – as long as there's abuse – we will fight for every childhood

#### Introduction

NSPCC Cymru/Wales feels a major barrier to successful implementation of the VAWDASV Act is the absence of children and young people from much of the work. While both the Act and accompanying national strategy specifically name children as directly impacted by VAWDASV, this is not realised in practice. NSPCC has found 1 in 5 children have been exposed to domestic abuse<sup>1</sup> and 130,000 children and young people in the UK are living with high risk domestic abuse<sup>2</sup>. It is therefore imperative that a child's right to protection and recovery from abuse is realised.

In the evidence provided by NSPCC Cymru/Wales to the Equalities, Local Government and Communities Committee in 2016 we highlighted our concern about the harassment and violence experienced by children and young people, the need for mandatory RSE within a whole school approach and the provision of specialist services for children and young people impacted by abuse.

Progress against these concerns have been limited; An inquiry into harassment experienced by children and young people has not happened to date. However, progress has been made towards mandatory RSE and we strongly welcomed this in our response to Welsh Government's [consultation](#). However, we feel a more comprehensive guidance about the expected content of the resource is needed, specifically the importance of keeping safe, healthy bodies and healthy relationships and the upskilling of teachers to ensure important and difficult subjects are covered. Additionally, we continue to call for an RSE curriculum co-produced with children and young people *'young people should be regularly consulted on the issues they're most impacted by and what kind of language and expression is most useful for supporting them to navigate current dilemmas in their daily lives. They should be given the opportunity to identify their needs, comment on any policies and contribute to curriculum*

<sup>1</sup> <https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-abuse-and-neglect/domestic-abuse/>

<sup>2</sup> *ibid*

planning. This information should be gathered at a school level and used to inform the design of RSE provision<sup>3</sup>.

### Specialist Services

A report considering the proposed 'Ending Violence Against Women and Domestic Abuse (Wales) Bill' in 2012 stated '*delivery of services is patchy with no consistent, strategic oversight of the issue*'<sup>4</sup>. Almost eight years later and five years after implementation of the VAWDASV Act, the resources for and availability of services is still inconsistent across Wales.

In 2016, we highlighted our concern that provision of support for children impacted by domestic abuse across Wales was patchy. At the time, professionals told us; '*there are not enough therapeutic services such as counselling, CBT and attachment based therapies*'.

In early 2019 NSPCC Cymru/Wales produced a [briefing](#) with Children in Wales and Welsh Women's Aid on the impact of domestic abuse on children. The briefing highlighted that while both the VAWDASV Act and National Strategy specifically name children as direct victims and not 'passive witnesses' there remains a gap between the policy intent of the act/national strategy and the provision of services for child survivors across Wales. Using data from Welsh Women's Aid membership of specialist services the briefing highlighted that many of these services do not have dedicated provision for children and young people. Despite a commitment from Welsh Government to invest in prevention work with children and the intent of the Act to move towards a preventative model, dedicated services for children are not consistently available across Wales.

We feel our concern is compounded by children being absent from conversations about VAWDASV. The Wales Audit Office report for example, highlights the short term and inconsistent nature of funding for specialist services, but there is no mention of the chronic lack of provision for child survivors. It therefore suggests a mapping of services across Wales to understand current provision and gaps, but does not reference the importance of mapping the gaps in provision for children – this can be done by utilising the work done by NSPCC Cymru/Wales and Welsh Women's Aid.

In terms of the data used to complete local authority needs assessments the Wales Audit Office report notes public bodies are not always drawing on a comprehensive evidence base to fully assess local need. The data sources listed would indicate a gap in terms of the impact of VAWDASV on children, with data from maternity services and social care noted but no mention of other public bodies who work for or come into contact with, children.

Children's voices are missing from VAWDASV strategies, the report highlighted that survivors' voices were not consistently heard by local authorities when consulting with stakeholders. In local strategies children's voices are not discussed separately from adult survivors, so we can only assume their voices went unheard in much of the evidence gathering. A review of local VAWDASV strategies by NSPCC Cymru/Wales noted that only three of the eight strategies recognised children as victims of domestic

---

<sup>3</sup> <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/consultation-responses/nspcc-cymru-wales-response-to-draft-curriculum-for-wales-2022.pdf> page 23

<sup>4</sup> Robinson A, et al, The Welsh Government's proposed 'Ending Violence Against Women and Domestic Abuse (Wales) Bill': Recommendations from the Task and Finish Group <http://orca.cf.ac.uk/64054/1/Robinson%20et%20al%20%282012%29%20Task%20and%20Finish%20Group%20Report.pdf>, page 18

abuse and only two strategies were prioritising early intervention and work in schools. However, no children were consulted in the development of the strategies and none specifically prioritised developing or establishing support services for children.

Any prevention work on VAWDASV must have work with children as front and centre, however the Wales Audit Office report makes little mention of CYP when considering prevention work. Health, local authorities, Fire and Rescue and registered social landlords are mentioned as key players in preventing VAWDASV and of course they will engage with children, but schools and other public bodies working directly with children and whose primary responsibility is to the child must also play a pivotal role in prevention and early identification.

It appears the shift to prevention and awareness raising is slow, with funding presenting a challenge, this is compounded by commissioners not using good quality information to understand demand for VAWDASV services. There is no mention of demand for and the gap in children's services within the Wales Audit Office report. While services have been mapped, the report acknowledge there are gaps in this data and the failure to mention children speaks for itself.

It appears that slow implementation, a lack of resource and an inconsistent availability of specialist services for children recovering from abuse is preventing the Act from having a transformative impact on children and young people. For children already impacted by VAWDASV they need their own intensive, specialist, therapeutic support to help mitigate the impact of the abuse. In addition, work with children to spot the signs of abuse at an earlier stage or to educate them before it happens at all, is key to eradicating VAWDASDV for future generations.

### **What we are calling for;**

We reiterate the calls made in our joint briefing with Children in Wales and Welsh Women's Aid.

#### **1. Dedicated services for children and young people who experience domestic abuse**

We want the Welsh Government VAWDASV Sustainable Funding Group to work with local authorities, cross government departments and the specialist sector to identify funding for the following;

- Dedicated children workers in both refuge and community services as standard to provide play and therapeutic work while the family is in crisis.
- Specialist services in each region of Wales staffed with appropriately trained professionals to provide therapeutic services for children and young people to enable them to recover from their experiences and develop healthy relationships in the future.
- The Wales Centre for Public Policy to ensure children and young people services are included in the review of refuge provision

#### **2. Local VAWDASV strategies**

We want to see:

- All local plans to recognise children and young people are directly impacted by abuse and commit to consult child survivors about the protection and support they need
- Local strategies to prioritise the development of specialist service provision for children and young people in every region of Wales

- Close working between safeguarding Children Boards and partnerships and agencies working to end domestic abuse to ensure effective protection and support of child victims.

**3. Prevention, Early Intervention and Cultural Change**

- Relationship and Sexuality Education within the new school curriculum must be mandatory
- The whole-education approach to be implemented across all education institutions to promote learning and challenge unhealthy relationships.



# Eitem 5.3

Papur 5 – Pwrdd Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent  
Paper 5 – Gwent VAWDASV Partnership Board

Bore da

Please see a short update on the implementation of the Act compiled from responses by the Gwent VAWDASV Partnership Board.

Members agreed the report raises some very valid points. There are some areas which are not as clear such as praising Gwent for its joint working approach by all agencies and then referring to a concern about commissioning in Gwent.

In relation to additional points members felt that there needs to be more of a emphasis on the Act and requirements within. One example is in relation to the commissioning process and whether there is a way to ensure Local Authorities and Partnerships fulfil their duties effectively.

In relation to additional progress within the Region, the partnership has joint funded a MARAC coordinator to support this aspect of the work. Gwent Police are delivering SafeLives DA Matters training in March to 800 first responders to aid awareness with those officers. A new Regional Officer starts with the team on Monday 20<sup>th</sup> January to progress the commissioning work within the area with a completion date of the agreement by 31 March 2020. Ask and Act training continues to be rolled out across the Region with a decision made at the beginning of this financial year to enable local delivery.

Another learning point, and often a barrier, is the need to emphasis the connections with the VAWDASV Act and other legislation such as the Social Services and Wellbeing Act, not all partners identify the connection and understand the importance of the VAWDASV Act alongside all other Acts – this seems to be echoed at all levels across Wales.

I hope this helps and please get back to us if you require any additional information.

Kind regards

Janice Dent (on behalf of the Gwent VAWDASV Partnership Board)

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AC/AM**  
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Papur 6 – Llywodraeth Cymru  
Paper 6 – Welsh Government



**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Ein cyf/Our ref MA-L-JJ-0731-19

Elin Jones AC  
Llywydd  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

[Llywydd@cynulliad.cymru](mailto:Llywydd@cynulliad.cymru)

**21** Ionawr 2020

*Annwyl Elin,*

**BIL LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU)**

Ar 18 Hydref 2019 anfonais y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) atoch er mwyn penderfynu a oedd o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol.

O dan Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae angen cydsyniad Gweinidogion perthnasol y Goron ar gyfer rhai darpariaethau yn y Bil. Mae'r rhain yn ymwneud a swyddogaethau swyddogion cofrestru etholiadol a dileu pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn galluogi awdurdod lleol i wneud cais i lys ynadon i garcharu dyledwyr treth gyngor. Nid oedd y cydsyniadau hynny wedi dod i law ar yr adeg yr anfonwyd y Bil atoch.

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru bellach wedi ysgrifennu at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i roi cydsyniad mewn cysylltiad a'r darpariaethau sy'n dileu pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn galluogi awdurdod lleol i wneud cais i lys ynadon i garcharu dyledwyr treth gyngor.

Yn ogystal, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2019, a wnaed gan y Cyfrin Gyngor mewn cyfarfod ar 17 Rhagfyr, wedi dileu'r mater cymhwysedd mewn cysylltiad a swyddogaethau swyddogion cofrestru etholiadol.

*In gywir,*  
*Mark*

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Tudalen y pecyn 119**